



Mis y Plentyn
Milwrol

Month of the
Military Child




Ebrill/April | #MotMCCymru

Mis y Plentyn Milwrol

EBRILL 2026

Ffyrdd i ysgolion gymryd rhan...



Deall
Ymgysylltu
Dathlu

ssce:
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU

Mae tîm SSCE Cymru yn annog lleoliadau addysg ledled Cymru i gynnal gweithgareddau yn ystod y mis hwn i ddeall profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog, ymgysylltu â'ch cymunedau Lluoedd Arfog lleol a dathlu profiadau unigryw'r grŵp yma o blant a phobl ifanc.

Mae Ebrill wedi'i ddynodi fel Mis y Plentyn Milwrol, sy'n tynnu sylw at y rôl bwysig y mae plant y Lluoedd Arfog yn ei chwarae yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n amser i gymeradwyo teuluoedd y Lluoedd Arfog a'u plant am yr aberth dyddiol maen nhw'n ei wneud a'r heriau y maent yn eu goresgyn.



Am rhagor o wybodaeth, cyngor neu gymorth gydag unrhyw syniadau, ewch i dudalen we [Mis y Plentyn Milwrol SSCE Cymru](#) neu cysylltwch â SSCECymru@wlga.gov.uk a bydd eich Swyddog Cyswllt Ysgol yn cysylltu â chi.



Millie
Rheolwr
Rhaglen



Jo
Swyddog
Arweiniol
Cyfranogiad



Yasmin
Swyddog
Cyswllt
Ysgolion




Cara
Swyddog
Cyswllt
Ysgolion



Rebecca
Swyddog
Cyswllt
Ysgolion

Am ragor o wybodaeth ewch i:
www.SSCECymru.co.uk/MotMC



**Mis y Plentyn
Milwrol**
**Month of the
Military Child**


Ebrill/April | #MotMCCymru

**ssce:
CYMRU**

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYNR

Diwrnod Porffor i Fyny

Dydd Gwener 24ain o Ebrill yw'r diwrnod i 'Borffor i fyny' ar gyfer Mis y Plentyn Milwrol!



Mae diwrnod 'Porffor i fyny' yn ddiwrnod sy'n ymroddedig i anrhydeddu plant/pobl ifanc y Lluoedd Arfog drwy'r lliw porffor, lliw sy'n cynrychioli pob cangen o'r Fyddin.



Dydd Gwener 24ain Ebrill yw'r diwrnod i 'Borffor i fyny' ar gyfer Mis y Plentyn Milwrol!

- Gwisgwch borffor
- Creu gwaith celf ac arddangosfeydd porffor
- Dathlu a diolch i'ch plant y Lluoedd Arfog am y rôl bwysig y maent yn ei chwarae yng nghymuned y Lluoedd Arfog trwy unrhyw un o'r syniadau yn y llyfryn hwn
- Tynnwch luniau o'ch dathliadau
- Rhannwch lluniau gyda SSCECymru@wlga.gov.uk a [@SSCECymru](#) ar y cyfryngau cymdeithasol ([X](#) a [Facebook](#)).



DEALL

profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog

Gwylwch a rhannwch storiau plant y Lluoedd Arfog SSCE Cymru i ddysgu mwy am eu profiadau unigryw.

Defnyddiwch Adnoddau Dysgu Diwrnod y Lluoedd Arfog i archwilio hanes y Lluoedd Arfog.

Gwylwch a rhannwch ffilmiau arfer da SSCE Cymru i ddysgu sut mae ysgolion ledled Cymru yn cefnogi eu plant Lluoedd Arfog.

Ar fap y byd, nodwch ble mae eich plant y Lluoedd Arfog wedi byw, neu mae eu rhieni wedi'u postio i'w harddangos yn eich ysgol.

Rhowch gyfle i blant y Lluoedd Arfog gyflwyno cyflwyniad am eu profiadau o fod yn rhan o deulu y Lluoedd Arfog neu rannu lluniau, i arddangos eu cyfleoedd cadarnhaol.

Cynnal gweithgareddau llais disgyblion i gael gwell dealltwriaeth o'u profiadau a nodi ffyrdd y gall yr ysgol ymateb i'w hanghenion.

Defnyddiwch Adnoddau Addysgu Cofio'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer adnoddau sy'n briodol i'w hoedran i "fyfyrrio ar Wasanaeth ac aberth" a dysgu mwy am hanes ein cenedl.

Trefnu i aelod o'r Lluoedd Arfog gyflwyno cyflwyniad neu weithgaredd ar bwnc sy'n gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog.

Rhedeg amser stori gan ddefnyddio llyfrau am brofiadau plant y Lluoedd Arfog, ffordd o fyw y Lluoedd Arfog, bod yn ddisgybl mewn ysgol newydd neu werthfawrogi gwahaniaethau yn ei gilydd. Gellir gofyn am gyfres o chwe llyfr dwyieithog Little Troopers AM DDIM gan SSCE Cymru.

Gwnewch Wal Parth Amser, gan gynnwys cyfres o glochau i ddangos y gwahanol barthau amser ledled y byd lle mae plant y Lluoedd Arfog wedi byw, neu mae eu rhieni wedi'u postio.

Dysgwch am y gwahanol ddiwylliannau a thraddodiadau o'r lleoedd y mae plant y Lluoedd Arfog yn eich ysgol wedi byw.

**Mis y Plentyn
Milwrol**

**Month of the
Military Child**



Ebrill/April | #MotMCCymru

ssce
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU

YMGYSYLLTU

â chymuned y Lluoedd Arfog

Dathlu aelod o deulu disgybl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog o'r blaen neu sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog trwy ofyn i blant rannu lluniau a medalau.

Gofynnwch i aelod presennol neu gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog (rhiant, brawd neu chwaer neu ffrind) fod yn siaradwr gwadd yn yr ysgol a rhannu eu profiadau.

Cynnwys gwybodaeth mewn cylchlythyrau ysgolion/cyfryngau cymdeithasol am y cymorth sydd ar gael gan sefydliadau ac elusennau'r Lluoedd Arfog.

Gwahoddwch eich Hyrwyddwr Lluoedd Arfog yn eich Awdurdod Lleol i fynychu eich digwyddiadau/gweithgareddau yn ystod Mis y Plentyn Milwrol.

Defnyddiwch faner Mis y Plentyn Milwrol a'r ddelwedd sgwâr ar gyfryngau cymdeithasol a llofnodion e-bost.

Gweithiwch gyda SSCE Cymru i ymgorffori arfer da a chyflawni eich statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

Cefnogwch plant y Lluoedd Arfog i ysgrifennu cerdyn diolch i rywun a'u helpodd neu a oedd yn ffrind da iddynt pan gyrhaeddodd nhw i'r ardal.

Creu cyfleoedd i blant y Lluoedd Arfog gwrdd a rhannu profiadau gyda phlant Lluoedd eraill yn yr ardal leol.

Gwahoddwch ddisgyblion i ddweud ychydig eiriau o werthfawrogiad am y Lluoedd Arfog trwy ysgrifennu cerddi, caneuon neu ysgrifennu llythyrau.

Gofynnwch am gêm fwrdd Nadroedd ac Ysgolion SSCE Cymru am ddim i'w defnyddio yn ystod gweithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog neu fel adnodd DPP hwyliog i staff.

Mynychwch gyfarfodydd fforwm Cyfamod y Lluoedd Arfog lleol i rwydweithio a gwneud cysylltiadau â chymuned leol y Lluoedd Arfog.



ssce:
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU

**Mis y Plentyn
Milwrol**

**Month of the
Military Child**

Ebrill/April | #MotMCCymru

DATHLU

profiadau plant y Lluoedd Arfog

Gwisgwch borffor a 'porffor i fyny' yn eich ysgol i ddathlu diwrnod Porffor i fyny ar ddydd Gwener 24ain Ebrill.

Creu arddangosfa i ddathlu Mis y Plentyn Milwrol gan ddefnyddio gwaith celf porffor.

Annog eich plant y Lluoedd Arfog i fod yn greadigol a chynhyrchu darn creadigol sy'n arddangos eu profiadau o fod yn rhan o deulu y Lluoedd Arfog.

Cynnal gwasanaeth Mis y Plentyn Milwrol. Gwahoddwch blant y Lluoedd Arfog i adrodd cerdd Dant y Llew.

Cynnal gweithgareddau codi arian a rhoi'r elw i elusen leol neu genedlaethol y Lluoedd Arfog.

Gofynnwch am lyfrau ac adnoddau am ddim i'ch plant milwrol gan [Reading Force](#).

Gofynnwch am gêm [Nadroedd ac Ysgolion SSCE Cymru](#) am ddim i'w defnyddio yn ystod gweithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog neu adnodd DPP hwyliog i staff.

Cynnal digwyddiad dathlu ar gyfer plant y Lluoedd Arfog, eu teulu a'u ffrindiau.

Gofynnwch am fathodynau Mis y Plentyn Milwrol am ddim gan SSCE Cymru, i blant a staff y Lluoedd Arfog eu gwisgo yn ystod mis Ebrill.

Creu gwaith celf ar thema porffor a dant y llew a'i arddangos o amgylch yr ysgol.

Cwblhau taflenni gweithgareddau, posau a chwiliadau geiriau ar thema'r Lluoedd Arfog, ar gael gan [Little Troopers](#).

Cefnogi plant i gystadlu yng [Nghystadleuaeth Barddoniaeth a Chelf Never Such Innocence](#). Ar agor 1af Ebrill – 1af Mai.

Trefnu rhediad lliw porffor.

Clymwch rhubanau porffor ar ffens neu goeden ar gyfer pob plentyn.

Gweithiwch gyda'ch plant Lluoedd Arfog i greu murlun.

Canu'r [caneuon a ysgrifennwyd gan blant y Lluoedd Arfog](#) yng Nghymru, a gynhyrchwyd gyda Never Such Innocence.

**Mis y Plentyn
Milwrol**
**Month of the
Military Child**



Ebrill/April | #MotMCCymru

ssce:
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYNRU

Little Troopers

Gweithdai rhithwir a llyfrau dwyieithog

Mae Little Troopers wedi creu gweithdai ar-lein am ddim gyda'r nod o ddod â phlant y Lluoedd Arfog at ei gilydd i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd unigryw y maent yn eu profi, ac i ddathlu beth mae'n ei olygu i fod yn 'Little Trooper'.

Mae gweithdy **newydd** ar thema dant y llew yn cael ei lansio ddiwedd mis Mawrth gyda ffocws ar gyfeillgarwch.

Mae'r sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw fel digwyddiad 'byw', wedi'i gyflwyno gan dîm profiadol o hwyluswyr gan ddefnyddio adnoddau ysgol gynradd Little Troopers sy'n ymgorffori adrodd straeon, symudiad, trafodaeth grŵp a chwarae rôl. Mae'r gweithdai yn agored i bob plentyn y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad o oedran cynradd ac yn addas ar gyfer grwpiau o unrhyw faint.

Llyfrau dwyieithog Little Troopers / SSCE Cymru

Mae'r chwe llyfr dwyieithog hyn, a ysgrifennwyd o safbwynt plentyn y Lluoedd Arfog, yn ychwanegiad gwych i'ch llyfrgell ysgol i blant sydd ag un neu fwy o rhieni sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog Prydain. Mae gan bob un o'r chwe llyfr godau QR codes yn gysylltiedig â [thudalen we SSCE Cymru Dysgu Cymraeg](#) lle gallwch glywed y sain Gymraeg yn cael ei ddarllen yn uchel.

Cysylltwch â ni at SSCECymru@wlga.gov.uk i ofyn am lyfrau AM DDIM eich ysgol



**ssce:
CYMRU**

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU





Dathlu Mis y Plentyn Milwrol gyda Little Troopers

Mae'r elusen plant milwrol, Little Troopers, yn lle gwych i fynd am ysbrydoliaeth ar sut y gallwch adnabod a dathlu'r plant milwyr yn eich lleoliad ym mis Ebrill eleni.

Pecyn Ysgol Little Troopers

Mae'r elusen wedi creu "Pecyn Ysgol Mis y Plentyn Milwrol" newydd sbon sydd am ddim i lawr lwytho o www.littletroopers.net/month-of-the-military-child

Yn y pecyn, fe welwch lawer o syniadau gweithgaredd i ennyn diddordeb plant a'u cael i siarad ac ysgrifennu am sut beth yw bywyd yn tyfu i fyny fel 'little trooper'.

Diwrnod Dant y Llew – Dydd Mercher 15fed Ebrill


Eleni, mae Little Troopers yn annog ysgolion a theuluoedd i gymryd rhan yn 'Ddiwrnod Dant y Llew' trwy wisgo rhywbeth melyn ar ddydd Mercher 15fed Ebrill. Bydd y weithred fach hon yn gwneud i eich blant milwyr deimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu cynnwys a'u dathlu. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle perffaith i chi siarad am pam mai'r dant yw blodyn swyddogol y plentyn milwrol, trwy ddefnyddio Cerdd y Dant, a welwch ym mhecyn ysgolion Little Troopers.

Chrefftau

Chwilio am syniadau i ymgysylltu â phlant iau? Ewch i wefan Little Troopers lle byddwch yn dod o hyd i daflenni gweithgareddau dant y llew hwyliog i'w lawr lwytho, gan gynnwys does chwarae dant, bisgedi dant, printiau celf dant a chrefftau dant.

Digwyddiadau

Mae Little Troopers hefyd yn cynnal digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb drwy gydol mis Ebrill, gan ddod â chymaint o blant milwrol â phosibl ynghyd yn ystod Mis y Plentyn Milwrol. Darganfyddwch fwy yn www.littletroopers.net/month-of-the-military-child





LITTLE TROOPERS
For all Forces Families

MONTH OF THE
Military
CHILD

Email: info@littletroopers.net

Little Troopers Registered charity no.
(England and Wales) 1149258

www.littletroopers.net

twitter: [@littletroopers_](https://twitter.com/littletroopers)

facebook: [littletroopersathome](https://www.facebook.com/littletroopersathome)



WINDS OF CHANGE GWYNTOEDD NEWID



Poetry & Art Competition

1 APR - 1 MAY

Cystadleuaeth Barddoniaeth a Chelf

1 EBR - 1 MAI

Prizes: Poetry and Art: £25 Amazon Card and Goodie Bag

Gwobrau: Barddoniaeth a Chelf: Cerdyn Amazon £25 a Bag Nwyddau

Bonus Category: Best School Display - £250 Book Voucher

Categori Bonws: Arddangosfa Ysgol Orau - Taleb Llyfr £250

All entrants receive a personalised certificate

Mae pob ymgeisydd yn derbyn tystysgrif wedi'i bersonoli

Winners are invited to London for a special award ceremony and a trip to the Tower of London

Gwahoddir yr enillwyr i Lundain ar gyfer seremoni wobrwyo arbennig a thaith i Tŵr Llundain



[NEVERSUCHINNOCENCE.COM/MONTH-OF-THE-MILITARY-CHILD](https://neversuchinnocence.com/month-of-the-military-child)



**OS YDYCH CHI MEWN
IDDO...
DARLLENWCH I MEWN
IDDO!**

**READING
FORCE**



RYDYM YN EICH GWAHODD I OFYN AM EICH LLYFRAU AM DDIM!

Rydyn ni i gyd yn gwybod bod darllen yn gwneud eich byd yn fwy, yn eich gwneud chi'n fwy clyfar, ac yn tanio eich creadigrwydd. Ond oeddech chi'n gwybod bod astudiaeth wedi profi bod dim ond **CHWE munud** o ddarllen yn gallu lleihau eich lefel straen gan 68%? Ac mae darllen yn cynyddu eich empathi a'ch tosturi. Waw! **2026 yw'r Flwyddyn Genedlaethol o Ddarllen**, sy'n ein hatgoffa i fynd i gyd a dechrau darllen.

Yn Reading Force, nid yn unig rydym yn annog pobl i ddarllen, rydym yn eich annog i sgwrsio am lyfrau – gyda theulu a ffrindiau. Ac os ydych chi eisiau, cwblhewch un o'n hadnoddau arbennig – llyfr lloffion neu ddyddiadur harddegau.

Pam ei wneud? Oherwydd bod rhannu a sgwrsio am lyfr - p'un a oeddech chi'n ei garu neu'n ei gasáu, yn hwyl, yn bondio, ac yn esgus gwyh ar gyfer sgwrs.



BYDDWN YN EICH HELPU I DDECHRAU GYDA LLYFRAU AC ADNODDAU AM DDIM I BLANT MILWROL.

Rydyn ni'n caru **Mis y Plentyn Milwrol**, gan bod ni'n gael gweiddi am ba mor anhygoel yw plant milwrol. I ddathlu, rydyn ni'n eich gwahodd i ofyn am eich llyfrau am ddim!

Ewch i'n gwefan, gofynnwch am eich llyfr a'ch adnodd a byddwn yn eu postio i'ch cartref.

Rydym yn tri-wasanaeth, ac yn croesawu **plant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed**, sy'n dod o deuluoedd lluoedd gwasanaethu, cyn-filwyr, profedigaeth ac ysgaredig. Mae gennym lyfrau ar gyfer darllenwyr dyslecsia hefyd. Byddem wrth ein bodd i chi gymryd rhan – p'un a ydych chi'n newydd i Reading Forces neu wedi cymryd rhan o'r blaen, ewch i mewn i gyd.



WWW.READINGFORCE.ORG.UK



Caneuon plant y Lluoedd Arfog

Mewn cydweithrediad â Never Such Innocence, mae SSCE Cymru yn falch o lansio pum cân, a ysgrifennwyd gan blant y Lluoedd Arfog ledled Cymru mewn cydweithrediad â'r cyfansoddwr caneuon Otto Aday. Mae'r caneuon hyn, a grëwyd yn ystod Gwyliau Lluoedd Arfog SSCE Cymru, yn taflu goleuni ar eu meddyliau, eu teimladau a'u profiadau byw o fywyd y Lluoedd.

Mae'r darnau pwerus hyn yn dal balchder, gwytnwch, cysylltiad a realiti tyfu i fyny mewn teulu Lluoedd Arfog yn eu lleisiau eu hunain 🎵



Mae'r pum cân a'r geiriau ar gael ar dudalen we profiadau plant y Lluoedd Arfog SSCE Cymru.

ssce:
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU


**Mis y Plentyn
Milwrol**

**Month of the
Military Child**

Ebrill/April | #MotMCCymru

Llais plant y Lluoedd Arfog

Mae tîm SSCE Cymru yn angerddol am lais disgyblion. Rydym wrth ein bodd yn gwrandao ar blant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog ac yn annog addysgwyr yng Nghymru i gydnabod sut y gall gwrandao ein helpu ni i gyd i newid pethau er gwell.



Clybiau plant y Lluoedd Arfog Cymru

Gall SSCE Cymru gynnig syniadau ar wahanol sesiynau ac arweiniad ar sut i sefydlu clwb yn eich lleoliad addysgol. Os yw'ch ysgol eisiau sefydlu clwb ac eisiau rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am gyllid i gefnogi prosiect fel hyn, yna cysylltwch â ni.

Pwy all fod yn Llysgennad Plant y Lluoedd Arfog?

Gall unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd â chysylltiad â'r Lluoedd Arfog sydd mewn addysg yng Nghymru ar hyn o bryd ddod yn Llysgennad Plant y Lluoedd Arfog.

Os oes gan eich ysgol glwb sefydledig, mae SSCE Cymru yn annog ei haelodau i ystyried gwirfoddoli fel llysgennad. Fel llysgennad, byddant yn cynrychioli clwb eu hysgol ac efallai y byddant yn cael eu gwahodd i rannu eu profiadau fel rhan o deulu y Lluoedd Arfog gyda'n tîm a rhwydwaith SSCE Cymru, gan roi llais pwysig iddynt i blant a phobl ifanc eraill y Lluoedd Arfog yng Nghymru.



Mis y Plentyn
Milwrol
Month of the
Military Child




Ebrill/April | #MotMCCymru

ssce
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYNRU

Dod yn Ysgol sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru



AMCANION

1. Ymgorffori
arfer da ar gyfer
cefnogi plant y
Lluoedd Arfog

2. Creu
amgylchedd
cadarnhaol i
blant y Lluoedd
Arfog rannu eu
profiadau

3. Annog
ysgolion i
ymgysylltu mwy
â'u cymuned y
Lluoedd Arfog

THEMÂU MEINI PRAWF

ADNABOD

Plant y Lluoedd
Arfog ac aelod
allweddol o staff

DEALL

Plant y Lluoedd
Arfog a'u
hanghenion
unigol

YMGYSYLLTU

Gyda SSCE
Cymru a
chymuned y
Lluoedd Arfog



Am rhagor o wybodaeth a chefnogaeth, ewch i
dudalen we SSCE Cymru [Ysgolion sy'n Cefnogi'r
Lluoedd Arfog Cymru](#) chysylltwch â ni.

ssce
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU

**Mis y Plentyn
Milwrol**
**Month of the
Military Child**



Ebrill/April | #MotMCCymru

Adnoddau SSCE Cymru

Gêm nadroedd ac ysgolion

Mae tîm SSCE Cymru yn gyffrous i lansio'r adnodd newydd hwn, fel ffordd o gydnabod bod plant y Lluoedd Arfog yn wynebu profiadau cadarnhaol a heriol.

Gellir defnyddio'r gêm yn ystod gweithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog neu fel adnodd DPP hwyliog i staff. Mae'r dyfyniadau sydd wedi'u cynnwys ar y gêm wedi'u cymryd o rai o weithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog yr ydym wedi'u cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cysylltwch â ni i ofyn am gopi ar gyfer eich ysgol.



Cyfeiriadur Cymorth

Mae Cyfeiriadur Cymorth SSCE Cymru yn cynnwys manylion bron i 100 o sefydliadau sy'n berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog; gyda swyddogaethau chwilio a hidlo sy'n helpu defnyddwyr i ddefnyddio'r ehangder o wybodaeth.

E-ddysgu

Mae pecyn hyfforddiant e-ddysgu SSCE Cymru wedi'i gynllunio i roi'r offer a'r hyder i addysgwyr ddeall a chefnogi anghenion plant y Lluoedd Arfog yn eu lleoliadau addysg yng Nghymru.

Mae'r pecyn hyfforddi am ddim hwn yn cynnwys naw pwnc a bydd yn cymryd tua dwy awr i'w gwblhau. Bydd eich cynnydd yn cael ei arbed fel y gallwch barhau lle gwnaethoch adael ac ailymweld â'r hyfforddiant yn ôl yr angen.

Mis y Plentyn
Milwrol
Month of the
Military Child




Ebrill/April | #MotMCCymru

ssce:
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU

NODIADAU / SYNIADAU:



Peidiwch ag anghofio rhannu eich lluniau
gyda ni drwy'r cod QR neu'r e-bost

SSCECymru@wlga.gov.uk

Rhannwch ar eich cyfryngau cymdeithasol
trwy dagio @SSCECymru ar:



&



ssce:
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU

**Mis y Plentyn
Milwrol**

**Month of the
Military Child**



Ebrill/April | #MotMCCymru